

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Drama – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Drama arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). Rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster TGAU Drama yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol¹.

Bydd y cymhwyster:

- drwy'r broses greadigol, yn caniatáu i ddysgwyr archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys.

Mae'r cysyniadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU Drama yn seiliedig ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol²:

- mae **archwilio**'r Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth artistig, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
- mae **ymateb a myfyrio**, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol
- mae **creu** yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg

Bydd y cymhwyster TGAU Drama yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- Cefnogi'r egwyddorion cynnydd³
 - annog dysgwyr i archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth,
 - datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig,
 - defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destun newydd.
- Cefnogi'r ystyriaethau penodol ar gyfer y maes hwn⁴ drwy roi cyfle i ddysgwyr:
 - archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain gan gyflawni profiadau cyfoethog a dilys ar yr un pryd.

¹ Celfyddydau Mynegiannol: [Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

² Celfyddydau Mynegiannol: [Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

³ Celfyddydau Mynegiannol: [Egwyddorion cynnydd - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

⁴ Celfyddydau Mynegiannol: [Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

- meithrin dealltwriaeth o actio, cyfarwyddo, dylunio, theatr dechnegol a gweinyddu'r celfyddydau.

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Dyfeisio

Asesiad ymarferol, Log Myfyriol a Gwerthusiad

40% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC

Uned 2: Perfformiad

Asesiad ymarferol a Bwriad Artistig

30% o'r cymhwyster

Wedi'i marcio gan arholwr sy'n ymweld

Uned 3: Arholiad

Arholiad ysgrifenedig

30% o'r cymhwyster

Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC

- Bwriadwn y canrannau canlynol ar gyfer y pedwar amcan asesu:

AA1	Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio.	20%
AA2	Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio.	40%
AA3	Dadansoddi, gwerthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.	20%
AA4	Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatrig a/neu berfformiadau.	20%

Cymhwyster llinol fydd hwn. Gellid cwblhau Uned 1 ar unrhyw bryd yn ystod y ddwy flynedd a'i chyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Byddai Uned 2 ac Uned 3 yn cael eu cwblhau ym mlwyddyn olaf y cwrs.

Fel hyn y bwriadwn rannu Amcanion Asesu pob uned:

	Uned 1 (40%)	Uned 2 (30%)	Uned 3 (30%)
AA1			20%
AA2	15%	25%	
AA3	10%		10%
AA4	15%	5%	

Gwybodaeth am Unedau

Uned 1 - Dyfeisio

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/genres theatraidd.
- mireinio ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran datblygu, newid a mireinio eu gwaith eu hunain.
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso sgiliau perfformio/dylunio mewn perfformiad byw.
- myfyrio ar ba mor effeithiol yw eu dewisiadau artistig nhw eu hunain ac ymateb i theatr fyw fel ffynhonnell o ddylanwad.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau a chynnwys posibl canlynol:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd. Bydd cysylltiad rhwng yr archwilio hwn â nodau a bwriadau artistig amrywiol ymarferwyr/cwmnïau theatr. Gellid cysylltu'r archwiliad ag amrediad o genres theatraidd yn ogystal.
- **ymateb a myfyrio** – wedi'i gysylltu â pherfformiadau byw a/neu wedi'u recordio ymlaen llaw / wedi'u ffrydio'n fyw fel dylanwadau theatraidd.
- **creu** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i greu yn rhan o broses y perfformiad dyfeisiedig terfynol a gallent brofi hyn naill ai fel perfformwyr neu fel dylunwyr.

Defnyddir asesiad di-arholiad ymarferol, log myfyriol a gwerthusiad i asesu'r uned hon. Cyflwynir y rhain ym mlwyddyn ola'r cwrs yn rhan o'r gyfres haf. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau ar gyfer yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Bydd pwysoli uwch am AA2 ac AA4, wedi'i ddilyn gan AA3. CBAC fydd yn gosod yr ysgogiadau ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Y ganolfan fydd yn marcio'r uned a CBAC yn ei chymedroli. Bydd dewis a hyblygrwydd ar gael i'r dysgwyr o ran pa ysgogiad i'w ddewis ar gyfer yr uned hon. Rhagwelir y bydd yr ysgogiadau ar gael o leiaf blwyddyn ymlaen llaw i'r dyddiad cyflwyno. Cynhelir yr asesiad ymarferol dan lefel uchel o reolaeth, lefel isel o reolaeth fydd i'r log myfyriol a bydd y gwerthuso'n digwydd dan lefel uchel o reolaeth. Mae amser y perfformiad yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud
- Grŵp o bump actor: 11-16 munud.

Rhaid i bob actor ryngweithio â pherfformwyr eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud.

Byddwn yn gosod gofynion lleiaf ar gyfer pob opsiwn dylunio e.e. dylunio goleuo, dylunio sain, dylunio set a dylunio gwisgoedd a fydd yn gymaradwy â'r fanyleb bresennol.

Uned 2 - Perfformiad

Pwrpas yr uned hon yw:

- mireinio ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr mewn perthynas â datblygu, newid a mireinio eu perfformiad/dyluniad seiliedig ar destun eu hunain drwy ganolbwyntio ar eu bwriadau artistig eu hunain.
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso sgiliau perfformio/dylunio mewn perfformiad byw.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd drwy ddewis eu testun eu hunain i'w berfformio. Gellir cysylltu'r archwilio hefyd ag amrediad o genres theatraidd, â nodau a bwriadau artistig amrywiol ymarferwyr/cwmnïau theatr a gan ddefnyddio theatr fyw fel ffynhonnell bosibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio.
- **creu** – yn gysylltiedig â'r broses o greu'r perfformiad terfynol yn seiliedig ar destun y byddai'n gallu cael ei brofi fel perfformwyr neu ddylunwyr.

Defnyddir asesiad di-arholiad ymarferol a chyflwyniad o fwriadau artistig mewn fformat heb ei ragnodi i asesu'r uned hon. Rhaid gwneud yr uned hon ym mlwyddyn olaf y cwrs. Bydd cymysgedd y tasgau yn yr uned hon yn targedu AA2 ac AA4. Bydd y pwysoli uwch am AA2 yn yr asesiad hwn, wedi'i ddilyn gan AA4. Bydd arholwr sy'n ymweld yn marcio'r asesiad di-arholiad yn allanol. Bydd gan ddysgwyr y dewis a'r hyblygrwydd i ddewis eu testun i'w berfformio ar gyfer yr uned hon, ond ni ddylai dysgwyr berfformio darn neu ddarnau o'r testun(au) gosod a ddewisir gan y ganolfan. Cynhelir y perfformiad ymarferol dan lefel uchel o reolaeth a bydd y lefel o reolaeth yn isel ar gyfer cwblhau'r bwriadau artistig. Mae amser y perfformiad yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud

Byddwn yn gosod gofynion lleiaf ar gyfer yr opsiwn dylunio e.e. dylunio goleuo, dylunio sain, dylunio set a dylunio gwisgoedd. Bydd hyn yn gymaradwy â'r fanyleb bresennol. Rhaid cyflwyno'r bwriadau artistig i CBAC yn ddigidol.

Uned 3 - Arholiad Digidol

Pwrpas yr uned hon yw:

- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio drwy gyd-destun testunau sydd wedi eu paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw.
- datblygu sgiliau creadigol dysgwyr fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr drwy gyd-destun testunau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw.

Bydd yr uned hon yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd. Bydd cysylltiad rhwng yr archwilio a'u testun gosod a ddewiswyd yn ogystal ag amrediad o gynyrchiadau theatraidd. Dylai dysgwyr gael y cyfle i archwilio theatr fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr.
- **ymateb** i'r testun gosod a **myfyrio** arno – mae hyn yn cysylltu â pherfformiadau byw a/neu wedi'u recordio ymlaen llaw/wedi'u ffrydio'n fyw fel dylanwadau theatraidd posibl. Yn rhan o'r astudiaeth o'r testun heb ei baratoi, perfformiadau wedi'u recordio ymlaen llaw/byw wedi'u ffrydio fydd sail yr asesiad.

Asesir yr uned drwy arholiad digidol a fydd ar gael yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1 ac AA3. Bydd y pwysoli uwch am AA1, wedi'i ddilyn gan AA3. Bydd CBAC yn gosod dewis o destunau gosod a gwaith (gweithiau) heb eu paratoi. Bwriadwn ryddhau'r gwaith heb ei baratoi ym mis Mawrth ym mlwyddyn olaf yr astudio, ac mae darn o'r gwaith hwn heb ei baratoi yn cael ei ddangos yn ystod yr arholiad digidol. Bydd y testunau gosod yn cynnwys gweithiau: o arddulliau/genres cyferbyniol; o gyfnodau cyferbyniol; sydd wedi'u creu yng Nghymru neu wedi'u hysbrydoli gan Gymru; sydd wedi'u hysgrifennu gan amrediad amrywiol o awduron gan gynnwys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tua 1 awr 30 munud o hyd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach. Mae angen meddwl a ellid caniatáu i ddysgwyr ailchwarae darnau er mwyn ateb y cwestiynau ac mae hynny wedyn yn berthnasol i hydrinedd o ran y dysgwyr a'r canolfannau. Bydd enghreifftiau gweledol yn rhan o rai cwestiynau.

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, ystyriwyd hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn â chyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen asesu 70% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad wedi'i osod gan CBAC a'i gyflawni ar ddyddiadau sydd wedi'u gosod gan CBAC. Gallai hyn achosi rhai heriau hydrinedd i'r canolfannau a dysgwyr. Bwriadwn geisio lleihau hyn i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith a'r asesiad i'r canolfannau ac i'r dysgwyr. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, mae hyn yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Bwriadwn felly ddarparu'r asesiad Uned 1 ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn gyntaf yr astudio i'w gyflwyno i CBAC yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf yr astudio. Bydd Uned 2 ar gael i ddysgwyr yn nhymor y Gwanwyn ym mlwyddyn olaf yr astudio, gan olygu y bydd modd asesu dysgwyr ar ôl iddynt gwblhau addysgu a dysgu'r uned berthnasol. Bydd y ganolfan yn marcio 40% o'r asesiad di-arholiad a CBAC yn ei gymedroli. Bydd arholwr sy'n ymweld yn marcio 30% o'r asesiad di-arholiad a gallai hynny helpu o ran hydrinedd. Deallwn fodd bynnag y bydd angen i'r canolfannau fod yn hyblyg o ran amser cynnal yr ymweliadau. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd ond bwriadwn leihau'r rhain i'r eithaf drwy ledaenu'r llwyth gwaith ac asesu ar gyfer canolfannau a dysgwyr. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi ei bod yn ofynnol i'r cymhwyster fod yn llinol, mae hyn yn golygu bod rhai cyfyngiadau. Bwriadwn felly ddarparu'r asesiad Uned 1 ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn gyntaf yr astudio, fodd bynnag bydd yn cael ei gyflwyno i CBAC yn y gyfres haf ym mlwyddyn olaf yr astudio.

Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn effeithio ar hydrinedd, daethpwyd i'r casgliad bod lefel uchel o reolaeth yn hanfodol ar gyfer elfennau o'r naill asesiad di-arholiad a'r llall er mwyn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Yn ôl y gofynion hyn, mae dysgwyr yn gwireddu eu bwriadau artistig mewn perfformiad byw ac yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau perfformio a/neu ddylunio i ddangos rheolaeth. Bydd elfennau o'r asesiadau dan reolaeth yn cael eu cynnal dan lefel isel o reolaeth (Uned 1 y log myfyriol ac Uned 2 bwriadau artistig). Credwn y bydd cynnal yr elfennau hyn dan lefel isel o reolaeth yn helpu o ran hydrinedd i'r canolfannau ac yn gweithio fel ffordd ddilys o fodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer dysgwyr er mwyn dangos eu bod yn deall y broses greadigol ac yn ei gwerthuso'n feirniadol.

Bydd hyblygrwydd ar gael o ran fformat yr asesiad di-arholiad (Uned 1, log myfyriol a gwerthusiad, ac Uned 2, cyflwyno bwriad artistig). Drwy fod yn hyblyg fel hyn, bydd mwy o hydrinedd i'r ganolfan. Gallan nhw ddewis y fformat neu amrediad o fformatau sydd fwyaf addas i'w dysgwyr o ran yr adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol i'w dysgwyr, a chyfateb i ddisgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Ar gyfer Uned 1 ac Uned 2, bydd amrediad o ysgogiadau o safbwyntiau amrywiol ar gael a fydd yn caniatáu i ddysgwyr archwilio safbwynt lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Bydd yr ysgogiadau hyn yn helpu'r dysgwyr i ymgysylltu, gan hwyluso'r cyfle i greu gwaith sy'n berthnasol, yn ddeniadol ac yn greadigol.

Credwn y bydd y dewis o destun i'w berfformio a natur ymarferol y tasgau ar gyfer y gydran berfformio (Uned 2) yn helpu i wneud yr asesiad yn fwy deniadol i ddysgwyr. Byddant wedyn yn gallu dangos a defnyddio eu sgiliau mewn cyd-destunau ystyrlon ac yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Credwn fod y tasgau asesu di-arholiad a fwriadwn ar gyfer yr unedau dyfeisio a pherfformio (Unedau 1 a 2) yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys. Maen nhw'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau bod asesiad di-arholiad Uned 1 yn ddibynadwy, byddwn yn sicrhau y bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres arholiadau. Datblygir meini prawf marcio a bydd pecyn o gefnogaeth ar gael i athrawon a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd. Yn yr un modd yn Uned 2, byddwn yn sicrhau y bydd yr uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu bob blwyddyn, bydd meini prawf marcio'n cael eu datblygu a bydd arholwyr yn derbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r meini prawf marcio'n gyson ar draws canolfannau ac ym mhob cyfres.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 3 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn ni'n datblygu asesiadau, byddwn ni'n sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, bod ymdriniaeth gytbwys a phriodol o'r cynnwys dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson. Rydym mewn cysylltiad â Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru o ran gallu'r canolfannau i ddarparu'r asesiad ar sgrin.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd o ran hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Drama](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Drama**:

- 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
- 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i **TGAU Drama**:

- 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â drama
- 2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Drama** gefnogi *Dysgwyr* i:

- 3.1. archwilio dramâu sydd wedi'u creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau drama eu hunain
- 3.2. meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o ffurfiau, genres, arddulliau, technegau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno drama
- 3.3. datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfathrebu trwy ddrama
- 3.4. ymateb i waith drama gan eraill a myfyrio arno, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am y cyd-destun i werthuso effeithiolrwydd y syniadau a'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu ystyr
- 3.5. cymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio i ddangos rheolaeth
- 3.6. datblygu sgiliau creadigol i gynllunio, i ddyfeisio ac i ddylunio perfformiadau a/neu ddyluniadau effeithiol
- 3.7. myfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso

Amcanion Asesu

- Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu a'i pherfformio.	15%
AA2	Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio.	45%
AA3	Dadansoddi, gwerthuso a myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.	15%
AA4	Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatrig a/neu berfformiadau.	25%

Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Drama** fod yn llinol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r fanyleb **TGAU Drama** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:

- 14.1. rhaid i 30% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy arholiad allanol y mae'n rhaid iddo:
 - 14.2. gael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
 - 14.3. cynnwys cwestiynau ar y testunau a osodwyd gan y corff dyfarnu yn ogystal â darnau nad yw'r *Dysgwr* wedi paratoi ar eu cyfer
 - 14.4. cynnwys cwestiynau ar ddarnau nad yw'r *Dysgwr* wedi paratoi ar eu cyfer
 - 14.5. cael ei asesu yn ystod blwyddyn olaf y cwrs

15. Rhaid i'r arholiad allanol gynnwys elfen o asesiad digidol.

16. Dros oes y cymhwyster, rhaid i'r arholiad allanol asesu *Dysgwyr* ar waith:
 - 16.1. o arddulliau/genres cyferbyniol
 - 16.2. o gyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol
 - 16.3. sydd wedi'i greu yng Nghymru neu wedi'i ysbrydoli gan Gymru
 - 16.4. sydd wedi'i greu gan ystod amrywiol o gynhyrchwyr, gan gynnwys o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

17. Rhaid asesu cyfanswm o 70% o'r cymhwyster drwy asesiad ymarferol di-arholiad. Rhaid i'r asesiad di-arholiad:
 - 17.1. gael ei gyflwyno yn ystod blwyddyn olaf y cwrs
 - 17.2. cynnwys Uned berfformio sydd werth 30% o'r cymhwyster sydd
 - 17.3. wedi'i gosod a'i marcio gan y corff dyfarnu
 - 17.4. yn caniatáu i Ddysgwyr berfformio mewn arddulliau/genres o'u dewis nhw
 - 17.5. cael ei farcio'n allanol gan arholwr sy'n ymweld
 - 17.6. cynnwys uned ddyfeisio sydd werth 40% o'r cymhwyster a gaiff ei gosod gan y corff dyfarnu, ei marcio gan y Ganolfan, a'i chymedroli gan y corff dyfarnu
 - 17.7. cynnwys gofynion cymedroli ar gyfer yr uned ddyfeisio a ragnodir gan y corff dyfarnu
 - 17.8. gallu cael ei gyflwyno'n ddigidol, lle bo hynny'n briodol

18. Rhaid i Ddysgwyr gyflwyno log myfyriol mewn fformat sydd heb ei ragnodi, a fydd yn orfodol os am gael mynediad at yr ystod lawn o farciau. Rhaid i'r log myfyriol:
 - 18.1. fod werth dim llai na 2% a dim mwy na 5% o'r cymhwyster cyfan
 - 18.2. fod werth nifer penodol o'r marciau sydd ar gael
 - 18.3. allu cael ei gyflwyno'n ddigidol